

<b>Teitl:</b> Asesiad o effaith cynigion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ar ddyfodol Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni  <b>Rhif AE:</b> IA NUMBER  <b>Adran neu asiantaeth arweiniol:</b> Y Weinyddiaeth Cyfiawnder  <b>Adrannau neu asiantaethau eraill:</b>	<b>Asesiad o Effaith (AE)</b>		
	<b>Dyddiad:</b> 09/05/2014		
	<b>Cam:</b> Ymgynghoriad		
	<b>Ffynhonnell yr ymyrraeth:</b> Domestig		
	<b>Math o fesur:</b> Arall		
<b>Cyswllt ar gyfer ymholiadau:</b>			

<b>Crynodeb: Ymyrraeth ac Opsiynau</b>	<b>Barn yr RPC: Amherthnasol</b>
----------------------------------------	----------------------------------

Cost yr Opsiwn a Ffeirir (neu'r un mwyaf tebygol)				
<b>Cyfanswm y Gwerth Net Presennol</b> £750,000	<b>Gwerth Busnes Net Presennol</b>	<b>Cost net i fusnes y flwyddyn</b> (Cost net i fusnes y flwyddyn (cost net flynyddol gyfwerth i fusnes ar sail prisiau 2009))	<b>O fewn cwmpas y fethodoleg Un i Mewn Dau Allan</b>	<b>Y mesur yn cael ei ystyried yn</b>
			Nac ydy	Amh

**Beth yw'r problem dan sylw? Pam mae angen i'r llywodraeth ymyrryd?**

Agorwyd Llys Ynadon newydd Casnewydd ym mis Medi 2013 ac ers hynny mae'r defnydd a wneir o Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni wedi lleihau'n sylweddol. Nid yw hyn yn debygol o newid yn y dyfodol agos. Mae digon o gapasiti wrth gefn yn Llys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwmbrân i ymdopi â'r gwaith sydd wedi'i restru ar hyn o bryd yn Llys Ynadon Caerffili. Nid oes gwaith wedi'i restru yn Llys Ynadon y Fenni ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu bod GLITEM yn gwario ar hyn o bryd i weithredu llysoedd nad oes eu hangen mewn gwirionedd.

**Beth yw'r amcanion polisi a'r effeithiau arfaethedig?**

Y nod yw lleihau capasiti dros ben yng Ngwent ac arbed costau.

**Pa opsiynau polisi sydd wedi'u hystyried, gan gynnwys unrhyw ddewisiadau yn lle rheoleiddio? Rhowch gyfiawnhad dros yr opsiwn a ffeirir (mwy o fanylion yn y Sylfaen Dystiolaeth)**

**Dewis 1:** Dal i weithredu yn Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni.

**Dewis 2:** Cau Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni.

**Y dewis sy'n cael ei ffafrio yw Dewis 2 gan ei fod yn cyflawni amcan y polisi. Byddai'n bosibl cau un llys yn unig, ond byddai hynny'n gadael capasiti wrth gefn yn ystâd llysoedd Gwent ac ni fyddai'n cyflawni amcan GLITEM o wneud y defnydd gorau posibl o arian trethdalwyr a rhedeg y llysoedd yn effeithiol.**

<b>A gaiff y polisi ei adolygu?</b> Bydd/Ni fydd yn cael ei adolygu. <b>Os yw'n gymwys, rhowch ddyddiad yr adolygiad:</b> M/Y					
A fydd ei weithredu'n mynd y tu hwnt i ofnion sylfaenol yr UE?			Amherthnasol		
A yw unrhyw un o'r sefydliadau hyn o fewn ei gwmpas? Os nad yw sefydliadau micro wedi'u heithrio, nodwch y rheswm yn y Sylfaen Dystiolaeth.	<b>Micro</b> Ydy/Na	<b>&lt; 20</b> Ydy/Na	<b>Bach</b> Ydy/Na	<b>Canolig</b> Ydy/Na	<b>Mawr</b> Ydy/Na
Beth fydd y newid cyfwerth â CO <sub>2</sub> mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr (cyfwerth â miliwn tunnell o CO <sub>2</sub> )			<b>Wedi'i fasnachu:</b>		<b>Heb ei fasnachu:</b>

**Rwyf wedi darllen yr Asesiad o Effaith ac rwyf wedi fy modloni (a) ei fod yn rhoi golwg teg a rhesymol ar effaith, buddion a chostau disgwylidig y polisi, a (b) bod y buddion yn cyfiawnhau'r costau.**

Llofnod y [SELECT SIGNATORY] cyfrifol:		Dyddiad:	
----------------------------------------	--	----------	--

# Crynodeb: Dadansoddi a Thystiolaeth

# Opsiwn Polisi 1

Disgrifiad:

**ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN**

Blwyddyn Sylfaen y Prisiau 2014	Blwyddyn Sylfaen y GP 2014	Cyfnod mewn Blynnyddoedd 5	Budd Net (Gwerth Presennol (GP)) (£m)		
			Isel:	Uchel:	Amcangyfrif Gorau: £0m

COSTAU (£m)	Cyfanswm Trosiant (Pris Cyson) Blwyddyn	Cyfartaledd Blynnyddol (heb gynnwys trosiant) (Pris Cyson)	Cyfanswm Cost (Gwerth presennol)
Isel			
Uchel			
<b>Amcangyfrif Gorau</b>	<b>£0</b>		<b>£0</b>

**Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Byddai GLITEM yn dal i dalu costau gweithredu parhaus Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni, ac ni fyddai'n cyflawni'r arbedion blynnyddol posibl o £50,000 a £30,000 yn y drefn honno a allai ddeillio o gau'r ddau lys.

**Costau allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

BUDDION (£m)	Cyfanswm Trosiant (Pris Cyson) Blwyddyn	Cyfartaledd Blynnyddol (heb gynnwys trosiant) (Pris Cyson)	Cyfanswm y Budd (Gwerth presennol)
Isel			
Uchel			
<b>Amcangyfrif gorau</b>	<b>£0k</b>		<b>£0k</b>

**Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

**Costau allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Rhagdybiaethau/sensitifrwydd/risgiau allweddol Cyfradd disgownt (%) 3.5%

## ASESIAD BUSNES (Opsiwn 1)

Effaith uniongyrchol ar fusnes (Cyfwerth â Blwyddyn) £m:			O fewn cwmpas OITO? Ydy/Na	Y mesur yn cael ei ystyried yn Mewn/Allan/Dim Costau Net
Costau:	Buddion:	Net:		

# Crynodeb: Dadansoddi a Thystiolaeth

# Opsiw'n Polisi 2

Disgrifiad:

**ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN**

Blwyddyn Sylfaen y Prisiau 2014	Blwyddyn Sylfaen y GP 2014	Cyfnod mewn Blynnyddoedd 5	Budd Net (Gwerth Presennol (GP)) (£m)		
			Isel:	Uchel:	Amcangyfrif Gorau: £0.75m

COSTAU (£m)	Cyfanswm Trosiant (Pris Cyson) Blwyddyn	Cyfartaledd Blynnyddol (heb gynnwys trosiant) (Pris Cyson)	Cyfanswm Cost (Gwerth presennol)
Isel			
Uchel			
<b>Amcangyfrif Gorau</b>	<b>£90,000</b>	<b>£0</b>	<b>£90,000</b>

**Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Mae'r costau ariannol yn cynnwys costau adleoli (tuag £20,000), costau datgomisiynu TG (tua £60,000) a chostau gwerthu (tua £10,000). Nid oes costau gwaith galluogi gan fod gan Lys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwmbrân ddigon o gapasiti yn barod i wneud y gwaith ychwanegol. Cymerwn yn ganiataol na fydd newid net mewn amseroedd teithio gan fod gwaith ynadon yng Ngwent yn cael ei ddsbarthu ar hyn o bryd i un o'r pedwar llys ynadon ar sail y dyddiad cynharaf sydd ar gael ac nid ar sail lleoliad y llys.

**Costau allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Gallai rhai aelodau o staff GLITEM, ynadon a barnwyr weld cynnydd yn eu costau os ydynt yn gorfod teithio ymhellach i'w gwaith.

BUDDION (£m)	Cyfanswm Trosiant (Pris Cyson) Blwyddyn	Cyfartaledd Blynnyddol (heb gynnwys trosiant) (Pris Cyson)	Cyfanswm y Budd (Gwerth presennol)
Isel			
Uchel			
<b>Amcangyfrif gorau</b>	<b>£600,000</b>	<b>£80,000</b>	<b>£840,000</b>

**Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Y buddion newid yw canlyniad gwerthu'r eiddo. Rydym yn amcangyfrif bod Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni yn werth tua £600,000 gyda'i gilydd ar y farchnad, ar sail gwerth y tir. Y buddion parhaus yw canlyniad arbedion mewn costau gweithredu. Cafwyd y ffigur ar gyfer gwerth presennol cyfanswm y budd, sef £840,000, drwy ychwanegu ffigur y budd newid gostyngol at swm dros bedair blynedd y ffigurau budd parhaus gostyngol.

**Costau allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Rhagdybiaethau/sensitifrwydd/risgiau allweddol	Cyfradd disgownt (%)	3.5%
------------------------------------------------	----------------------	------

Ni ddisgwyli'r unrhyw newid yn y llwyth gwaith nac yn amseroedd aros defnyddwyr y llysoedd.

**ASESIAD BUSNES (Opsiw'n 2)**

Effaith uniongyrchol ar fusnes (Cyfwerth â Blwyddyn) £m:			O fewn cwmpas OITO?	Y mesur yn cael ei ystyried yn Mewn/Allan/Dim Costau Net
Costau:	Buddion:	Net:	Ydy/Na	

# Y sail dystiolaeth (ar gyfer dalenni crynodeb)

## Gwybodaeth gefndir

### Rhagymadrodd

1. Mae'r Asesiad o Effaith hwn, sy'n mynd gyda phapur ymgynghori IA NUMBER y Weinyddiaeth Cyfiawnder, yn archwilio'r opsiynau ar gyfer cau Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni yn y dyfodol. Yr opsiwn a ffafrir yw cau Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni.

### Sail Resymegol

2. Ers agor y Llys Ynadon newydd yng Nghasnewydd ym mis Medi 2013, ni wneir defnydd digonol o Lysoedd Ynadon Caerffili a'r Fenni, ac nid yw'r sefyllfa hon yn debygol o newid, hyd y gellir ei weld. Mae digon o gapasiti gwag yng Ngwent i gymryd y gwaith a restrir yn Llys Ynadon Caerffili ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, ni restrir unrhyw waith yn Llys Ynadon y Fenni. Mae hyn yn golygu fod GLITEM yn gwario arian i weithredu llysoedd nad oes arno eu hangen mwyach o bersbectif gweithredol.

### Amcan polisi a'r cwmpas

3. Yr amcan yw lleihau capasiti dros ben yng Ngwent ac arbed arian.

### Opsiynau polisi

4. Mae dau opsiwn polisi, sef Opsiwn 1 ac Opsiwn 2. O dan opsiwn 1, byddai Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni yn aros ar agor, ac o dan Opsiwn 2 byddai Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni yn cau.

### Grwpiau yr effeithir arnynt

5. Ar wahân i GLITEM, mae'n bosib yr effeithir ar y bobl a'r sefydliadau canlynol o ganlyniad i weithredu Opsiwn 2:
  - *Defnyddwyr y llys*
  - *Ynadon a'r farnwriaeth*
  - *Y Weinyddiaeth Cyfiawnder*
  - *Yr Heddlu*
  - *Gwasanaeth Erllyn y Goron*
  - *Prawf (NOMS Cymru)*
  - *PECS (Gwasanaeth Hebrwng Carcharorion i'r Ddalfa)*
  - *Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc*
  - *Gwasanaethau Cymorth i Ddiodefwyr a'r Gwasanaeth Tystion*
  - *Busnesau Lleol.*
6. Mae amlinelliad o'r effeithiau posibl ar y grwpiau hyn isod.

### Defnydd

7. Mae hyn yn golygu mesur faint o gapasiti'r adeilad sy'n cael ei ddefnyddio. Ar gyfer pob adeilad, mae'n cael ei ddiffinio fel cyfanswm y llwyth gwaith mewn oriau wedi'i rannu â'r capasiti damcaniaethol, os tybir y gellir defnyddio pob ystafell am 5 awr y diwrnod, 248 diwrnod y flwyddyn. (Sylwch fod defnydd yn cael ei fesur yn erbyn capasiti yn hytrach nag amserlen y llys.)

8. Ar y cam hwn, byddwn fel arfer yn darparu ffigurau defnydd ar gyfer cau'r llysoedd mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol flaenorol (2013/14). Fodd bynnag, ers agor y llys ynadon newydd yng Nghasnewydd, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith a wnaethpwyd yn Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni yn cael ei wneud yn Llys Ynadon Casnewydd yn awr. (Mewn gwirionedd, mae'r Grŵp Materion Ynadon lleol wedi gofyn i beidio â rhestru gwaith troseddol yn Llys Ynadon y Fenni yn gyfan gwbl). Felly, mae'n bosib y byddai'n gamarweiniol i ddarparu ffigurau defnydd ar gyfer 2013/14 i gyd yn yr achos hwn.
9. Mae'r ffigurau a gyflwynir isod yn seiliedig ar y gwaith a wnaethpwyd rhwng agor Llys Ynadon Casnewydd ar 30 Medi 2013 a mis Mawrth 2014. Maent wedi'u cyfrifo ar sail flynyddol (h.y. gan dybio bod lefelau'r llwyth gwaith wedi parhau ar gyfer gweddill y flwyddyn):

Llys	Cyfanswm yr Ystafelloedd Llys	Capasiti Enwol (oriau y flwyddyn)	Llwyth gwaith (oriau y flwyddyn)	Defnydd
Y Fenni	2	2480	0	0%
Caerffili	3	3720	804	22%
Llysoedd Derbyn (Casnewydd a Chwibrân)	8	9920	6332	64%

### Egwyddorion y dadansoddiad costau a buddion

10. Mae'r Asesiad o Effaith hwn yn adnabod, hyd y gellir, effeithiau posibl y ddau opsiwn sy'n cael eu hystyried, gyda'r nod o ddeall effaith net y newid hwn ar gymdeithas. Y nod yw darparu dadansoddiad costau a buddion yn fras, gan gynnwys costau a buddion ariannol ac anariannol. Gwent yw cwmpas daearyddol yr Asesiad o Effaith hwn.

## Effeithiau ariannol

### Costau trosglwyddo

11. O dan opsiwn 2, byddai GLITEM yn mynd i'r costau untro canlynol.
- Costau adleoli.** Mae'r costau hyn yn gysylltiedig gyda symud y gwaith, staff ac offer rhwng safleoedd. Amcangyfrifir y byddai'r cyfanswm costau adleoli oddeutu £20,000 (£10,000 ar gyfer Caerffili a £10,000 ar gyfer y Fenni), gan gynnwys 10% yn fwy i ganiatáu ar gyfer tuedd optimistaidd.
  - Costau datgomisiynu TG.** Mae'r costau hyn yn ymwneud â datgomisiynu'r TG o lysoedd Caerffili a'r Fenni. Amcangyfrifir y byddai cyfanswm y gost datgomisiynu TG oddeutu £60,000 (£30,000 ar gyfer Caerffili a £30,000 ar gyfer y Fenni), gan gynnwys 20% yn fwy i ganiatáu ar gyfer tuedd optimistaidd.
  - Costau gwerthu.** Mae'r costau hyn yn cynnwys y ffioedd cyfreithiol a'r ffioedd marchnata a fyddai ynghlwm wrth werthu Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni. Amcangyfrifir cyfanswm y costau gwerthu i fod oddeutu £10,000 (£5,000 ar gyfer Caerffili a £5,000 ar gyfer y Fenni), gan gynnwys 10% yn fwy i ganiatáu ar gyfer tuedd optimistaidd.
  - Costau gwaith galluogi.** Mae'r costau hyn yn cynnwys cwblhau'r gwaith angenrheidiol i sicrhau fod gan y llys sy'n derbyn y llwyth gwaith gapasiti digonol i gymryd y gwaith ychwanegol. Yn yr achos hwn, nid oes costau gwaith galluogi oherwydd bod gan Llys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwibrân gapasiti digonol i gymryd y llwyth gwaith ychwanegol.
  - Costau prosiect.** Mae'r costau hyn yn ymwneud â'r staff ychwanegol a'r adnoddau eraill sy'n ofynnol i gyflawni'r prosiect. Disgwylir costau bychain eraill fel rhan o'r prosiect (ar wahân i'r rhai a nodir uchod) oherwydd disgwylir bod cau'r llys yn cael ei gyflawni fel rhan o fusnes fel arfer.

### Costau cyfredol

12. O dan opsiwn 2, efallai y bydd cynnydd bychan yng nghostau Llys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwibrân o ganlyniad i'r cynnydd yn y defnydd a wneir ar gyfleustodau, costau cynnal a chadw a chostau amrywiadwy uwch (fel argraffu, postio a theleffoni). Fodd bynnag, disgwylir i'r cynnydd hwn fod yn fach iawn.
13. Nid oes unrhyw aelod o staff GLITEM yn gweithio yn Llys Ynadon Caerffili nac yn Llys Ynadon y Fenni ar hyn o bryd. Mewn gwirionedd, nid oes unrhyw aelod o staff y llys ynadon wedi'u lleoli'n barhaol mewn unrhyw lys yng Ngwent oherwydd bod pob un yn gweithio yn Llys y Goron Casnewydd, ac yn teithio ar sail ad hoc i Gaerffili a'r Fenni.

### **Buddion trosglwyddo**

14. Amcangyfrifir gwerth adeilad Llys Ynadon Caerffili ar y farchnad i fod oddeutu £450,000, ac adeilad Llys Ynadon y Fenni oddeutu £140,000 yn seiliedig ar werth y tir, gan gynnwys 10% yn llai i ganiatáu ar gyfer tuedd optimistaidd.

### **Buddion parhaus**

15. Disgwylwn y byddai GLITEM yn gwneud arbedion gweithredol o £80,000 y flwyddyn (£50,000 ar gyfer Caerffili a £30,000 ar gyfer y Fenni), gan gynnwys 10% yn llai i ganiatáu ar gyfer tuedd optimistaidd. Mae cyfanswm yr arbedion gweithredol yn cynnwys:
  - *Costau sefydlog is.* Mae GLITEM yn talu costau sefydlog o £20,000 y flwyddyn yr un am y ddau lys (h.y. costau nad ydynt yn amrywio yn amodol ar faint o waith a wneir yn yr adeilad), ar ffurf ardrethi busnes. Tybiwn y gellir arbed yr holl gostau sefydlog hyn drwy gau Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni, gan gynnwys 10% yn llai ar gyfer tuedd optimistaidd.
  - *Costau rhannol amrywiol is.* Ar hyn o bryd, mae GLITEM yn talu costau rhannol amrywiol o £110,000 ar gyfer Caerffili a £50,000 ar gyfer y Fenni (h.y. costau sy'n amrywio yn rhannol yn seiliedig ar faint o waith a wneir yn yr adeilad), ar ffurf cyfleustodau, diogelwch, glanhau ac yn y blaen. Er bydd rhai o'r costau hyn yn trosglwyddo gyda'r gwaith i Llys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwibrân, disgwylwn arbedion o £40,000 y flwyddyn o ganlyniad i'r ffaith y byddai'r gwaith yn cael ei wneud mewn llai o leoliadau (£30,000 o Gaerffili a £10,000 o'r Fenni), gan gynnwys 10% yn llai i ganiatáu ar gyfer tuedd optimistaidd.

### **Effaith ar amseroedd teithio**

16. Yr arfer presennol yng Ngwent yw neilltuo treialon i'r llysoedd ynadon (yng Nghasnewydd, Cwibrân, Caerffili a'r Fenni) ar sail y dyddiad llys addas cyntaf sydd ar gael, yn hytrach na lleoliad y llys. Felly, er enghraifft, mae'n rhaid i bobl sy'n byw yng Nghaerffili neu yng Nghasnewydd deithio i Gwibrân am rai gwrandawiaidau, a phobl sy'n byw yng Nghwibrân deithio i Gasnewydd neu Gaerffili ar gyfer mathau eraill o wrandawiaidau.
17. Felly, mae'n anodd mesur effaith Opsiwn 2 ar ddefnyddwyr y llysoedd ynadon yng Ngwent oherwydd ei fod eisoes yn arfer cyffredin i deithio i amryw o lysoedd o fewn ardal Gwent ar gyfer gwrandawiaidau. Bydd rhai preswylwyr yn ardal Gwent yn gorfod teithio'n bellach i'r llys, ond ni fydd yn rhaid i eraill deithio mor bell; felly tybir na fyddai unrhyw effaith net ar gyfer yr holl breswylwyr. Mae Casnewydd, Cwibrân, Caerffili a'r Fenni yn weddol agos i'w gilydd, ac mae rhwydwaith ffyrdd rhagorol a chysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus da rhyngddynt, felly bach iawn fyddai'r effaith o ran amseroedd teithio hwy ar y rhan fwyaf o'r preswylwyr.
18. **Mewn gwirionedd, mae'r effaith yn debygol o fod yn gadarnhaol oherwydd bod mwy o bobl yn byw yng Nghasnewydd a Chwibrân o'i gymharu â Chaerffili a'r Fenni, ac ni fydd angen iddynt deithio i lys yng Nghaerffili na'r Fenni ddim mwy.**

### **2.6 Crynodeb o'r effeithiau ariannol**

19. Cynhelir y gwerthusiad economaidd dros 5 mlynedd, yn dechrau yn 2014/15. Yn nhermau gwerth presennol, mae cyfanswm cost Opsiwn 2 oddeutu £90,000, a chyfanswm buddion o oddeutu £840,000, ac felly gwerth presennol net o oddeutu £750,000. Mae crynodeb o gostau a buddion Opsiwn 2 yn nhabl 1 isod. (Tybir y bydd yn cymryd blwyddyn i ddechrau gweld effaith y buddion.)

**Tabl 1: Crynodeb o effeithiau ariannol Dewis 2 (yn cynnwys tuedd optimistaidd)**

Sefyllfa Net (Opsw'n 2 - Opsw'n1)

Ffigurau mewn £, gwerth real 2014

2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
---------	---------	---------	---------	---------

Costau (heb gynnwys TAW)

<b>Adleoli</b>	<b>£20,000</b>				
<b>Datgomisiynu TG</b>	<b>£60,000</b>				
<b>Gwerthu</b>	<b>£10,000</b>				
<b>Gwaith</b>					
<b>Galluogi</b>					
Cyfanswm	£90,000				

Costau GPN (5ml)	£90,000
------------------	---------

Buddion

<b>Gwerth Marchnad</b>		<b>£600,000</b>			
<b>Arbedion Costau Gweithredu</b>		<b>£80,000</b>	<b>£80,000</b>	<b>£80,000</b>	<b>£80,000</b>
Cyfanswm		£680,000	£80,000	£80,000	£80,000
Cyfanswm Buddion Gostyngol		£660,000	£80,000	£80,000	£70,000

Buddion GPN (5 mlynedd)	£840,000
-------------------------	----------

Budd Net	-£90,000	£680,000	£80,000	£80,000	£80,000
Budd Net Gostyngol	-£90,000	£660,000	£80,000	£80,000	£70,000

GPN (5 mlynedd)	£750,000
-----------------	----------

*D.S.: Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu; efallai na fydd cyfanswm colofnau'n cyfateb i swm y gwerthoedd unigol.*

## 2.6 Risgiau a Rhagdybiaethau

20. Gwnaethpwyd y rhagdybiaethau canlynol wrth gyfrifo'r costau a'r buddion a ddangosir yn nhabl 1 uchod.

- Ni fydd unrhyw newid o ran nifer yr achosion llys (ond gweler y 'Profion Sensitifrwydd' isod) a dim newid i amseroedd aros defnyddwyr y llys dros y pum mlynedd nesaf.
- Bydd y costau barnwrol yn aros yr un fath o dan opsiwn 2.

21. Mae nifer o'r costau a'r buddion sydd ynghlwm wrth opsiwn 2 yn amhendant. Er mwyn rhoi ystyriaeth i duedd cyffredin gwerthuswyr prosiect i fod yn rhy optimistaidd, ychwanegwyd tuedd optimistaidd i'r ffigurau costau a buddion yn y ddogfen hon drwyddi draw. Gweler y gwerthoedd tybiedig yn nhabl 2 isod.

**Tabl 2: Tuedd optimistaidd**

Cost / Budd	Tuedd Optimistaidd Dybiedig
Cost Adleoli	10%
Cost Datgomisiynu TG	20%
Cost Gwerthu	10%
Cost Gwaith Galluogi	-
Gwerth Tir	10%
Arbedion Cost Gweithredu	10%

## 2.7 Profion sensitifrwydd

22. Mae risg i lwyth gwaith y llys gynyddu. Pe bai cyfanswm y llwyth gwaith yn 2013/14 yn cynyddu 5%, yna, o dan opsiwn 2, byddai'r defnydd a wneir o'r ystafelloedd llys yn Llys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwmbrân yn cynyddu 77%, a phe bai'r llwyth gwaith yn cynyddu 10%, byddai'r defnydd yn cynyddu i 81%. Mae crynodeb o'r ffigurau perthnasol yn nhabl 3 isod.

**Tabl 3: Sensitifrwydd i swm llwyth gwaith**

	<b>Ystafelloedd Llys ar gael (Casnewydd a Chwmbrân)</b>	<b>Capasiti (oriau y flwyddyn)</b>	<b>Llwyth gwaith (oriau y flwyddyn)</b>	<b>Defnydd</b>
Gwaith presennol	8	9,920	7,288	73%
Gwaith presennol + 5%	8	9,920	7,653	77%
Gwaith presennol + 10%	8	9,920	8,017	81%

23. Gellir rheoli cynnydd pellach yn y llwyth gwaith drwy dynnu sylw at aneffeithlonrwydd wrth restru achosion, drwy ychwanegu capasiti (er enghraifft, ystafelloedd ychwanegol neu ragor o ddiwrnodau eistedd), neu drwy ailddyrrannu gwaith ar draws yr ardal leol e.e. gwranddo ar rywfaent o waith y llys ynadon yn Llys y Goron Casnewydd.
24. Yn gyffredinol, mae'r llwyth gwaith wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, felly nid yw cynnydd ar y raddfa a ystyrir uchod yn debygol.

## 3. Effeithiau anariannol

### 3.1 Buddion anariannol i GLITEM

25. Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw sylweddol yn Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni. Nid yw'r ddalfa yn Llys Ynadon Caerffili yn cydymffurfio gyda rheoliadau cyfredol y Gwasanaeth Hebrwng Carcharorion i'r Ddalfa, mae'r nenfwd wedi'i ddifrodi mewn un ystafell llys a thamprowydd yn y llall, ymysg pethau eraill. Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw ar y lifft cyhoeddus, yn Llys Ynadon y Fenni, y boeler, y cyntedd a'r maes parcio yn Llys Ynadon y Fenni.
26. Byddai modd osgoi'r costau cynnal a chadw gydag opsiwn 2. Nid yw hyn wedi'i gynnwys fel budd ariannol oherwydd gellir oedi'r gwaith cynnal a chadw yn y tymor byr, ond byddai profiad y defnyddwyr yn dioddef (gweler y papur ymgynghori ynghlwm am ragor o fanylion).

### 3.2 Grwpiau yr effeithir arnynt

27. Mae crynodeb o effeithiau posibl opsiwn 2 ar bobl a sefydliadau ar wahân i GLITEM isod. O ganlyniad i natur y broses ymgynghori, nid oedd yn bosib ymgynghori'n uniongyrchol â'r sefydliadau perthnasol ar y cam hwn; mae'r adrannau canlynol yn asesiad cychwynnol o'r effeithiau posibl, a chânt eu diweddarau yn y fersiwn terfynol o'r ddogfen hon yn unol â'r adborth a geir.
- *Defnyddwyr y llys.* Mae crynodeb o'r effaith ar ddefnyddwyr y llys o dan 'Effaith ar Amser Teithio' yn yr adran flaenorol.
  - *Ynadon a'r farnwriaeth.* Efallai y bydd effaith negyddol ar ynadon a barnwyr sy'n gweithio yn Llys Ynadon Caerffili ar hyn o bryd ac yn gorfod symud i Lys Ynadon Casnewydd neu Lys Ynadon Cwmbrân. Ni fydd angen uno meinciau oherwydd mai un Ardal Cyfiawnder Lleol yw Gwent.
  - *Y Weinyddiaeth Cyfiawnder.* Dim effaith.



- *Yr Heddlu*. Bydd effaith gadarnhaol i'r heddlu oherwydd na fydd swyddogion yr heddlu yn gorfod bod yn bresennol mewn cymaint o safleoedd gwahanol.
- *Gwasanaeth Erlyn y Goron*. Dim llawer o effaith, oherwydd bod cyfleusterau swyddfa yn Llys Ynadon Casnewydd.
- *Prawf*. Fel yr uchod.
- *PECS (Gwasanaeth Hebrwng Carcharorion i'r Ddalfa)*. Bydd effaith gadarnhaol ar gontractwyr PECS oherwydd na fydd rhaid iddynt gludo carcharorion o Gasnewydd i wrandawiadau yn y Fenni a Chaerffili ddim mwy. Yn ogystal, mae offer o safon uchel yn Llys Ynadon Casnewydd, gyda chysylltiadau fideo o'r llys i'r carchar.
- *Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc*. Dim effaith.
- *Gwasanaethau Cymorth i Ddiodefwyr a'r Gwasanaeth Tystion*. Golyga'r effaith ar y Gwasanaeth Cymorth i Ddiodefwyr a'r Gwasanaeth Tystion y bydd angen i'r sefydliadau hyn newid pwyslais eu gwaith, i ddarparu parhad gwasanaeth, gan sicrhau fod cefnogaeth gwaith maes ac yn y llys yn parhau.
- *Busnesau Lleol*. Gallai gael effaith negyddol ar fusnesau sy'n dibynnu ar Lys Ynadon Caerffili, cwmnïau cyfreithiol yn benodol (nid yw'n debygol fod unrhyw fusnesau'n dibynnu ar Lys Ynadon y Fenni oherwydd nad oes gwaith yn cael ei restru yno ar hyn o bryd). Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar fusnesau sy'n agos i Lys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwmbrân.

### 3.3 Effeithiau ar Gydraddoldeb

28. O dan adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010, wrth arfer ei swyddogaethau, mae gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ddyletswydd gyfreithiol i roi'r 'sylw dyledus' i'r angen i:
  - a. Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddwch ac erledigaeth, ac ymddygiad gwaharddedig arall o dan y Ddeddf;
  - b. Cynyddu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau (rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a rhai sydd ddim); a
  - c. Meithrin perthnasau da rhwng gwahanol grwpiau.
29. Yn unol â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym wedi ystyried, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, effeithiau tebygol opsiwn 2 ar unigolion gyda nodweddion gwarchoddedig. I wneud hyn, rydym wedi cymharu cyfleusterau yn Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni gyda'r cyfleusterau yn Llys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwmbrân, ac wedi ystyried yr amseroedd teithio, costau a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat rhwng Caerffili, Casnewydd, y Fenni a Chwmbrân.
30. Fel y nodir yn y papur ymgynghori ynghlwm, mae Llys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwmbrân yn hygyrch iawn i bobl anabl. Mae cyfleusterau gwell yn y ddau lys ar gyfer diodefwyr, tystion a defnyddwyr eraill y llys.
31. Yn unol â'i rwymedigaeth o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan WLITEM bolisi addasiadau rhesymol a fydd yn sicrhau y cymerir camau rhesymol i ddiwallu unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan ddefnyddwyr anabl y llys. Mewn perthynas â'r rhai y gallai amseroedd teithio hwy achosi problem iddynt, bydd GLITEM yn ystyried ar sail achosion unigol, unrhyw geisiadau am amseroedd dechrau a gorffen mwy hyblyg ar gyfer gwrandawiadau llys. Gall hyn fod yn help i liniaru'r effeithiau ar gyfer rhai defnyddwyr y llys gyda nodweddion gwarchoddedig e.e. rhai gyda chyfrifoldebau gofalu, sydd ran amlaf yn fenywod.
32. Oherwydd bod cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus reolaidd, fforddiadwy a hygyrch rhwng Casnewydd a Chwmbrân, ac o ystyried bod y cyfleusterau yn y ddau lys yn well, nid ydym yn credu y byddai effeithiau'r cynnig i gau Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni yn benodol yn rhoi'r rhai â nodweddion gwarchoddedig o dan anfantais sylweddol. Felly, nid ydym yn ystyried y byddai'r cynigion nac unrhyw effaith o ganlyniad iddynt, yn achosi gwahaniaethu uniongyrchol nac anuniongyrchol, o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010, a chredwn y byddai'n ffordd gymesur o

gyflawni'r amcan busnes dilys sef defnyddio ein Hystâd Llysoedd yn fwy effeithiol a lleihau costau rhedeg.

33. Ein hasesiad cychwynnol, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, yw ei bod yn annhebygol y bydd y cynigion yn achosi aflonyddwch ac erledigaeth yn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010. Hefyd, rydym wedi ystyried y graddau y mae'r newidiadau arfaethedig yn gydnaws gyda'r angen i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle, ac ystyried nad yw'r cynnig i gau'r llysoedd yn tanseilio cyflawni'r amcan hwn. Rydym hefyd yn ei ystyried yn annhebygol y bydd y cynigion yn effeithio ar y ddyletswydd i gynnal perthynas dda rhwng y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r rhai sydd ddim.
34. Rydym yn croesawu adborth ar yr asesiad hwn.

### 3.4 Prawf o effaith penodol

35. Cynhaliwyd y profion effaith penodol canlynol ar opsiwn 2.

- *Prawf effaith ar gystadleuaeth.*

1. A fydd y cynllun yn effeithio ar nifer y darparwyr gwasanaethau cyfreithiol?

Na.

2. A fydd y cynllun yn effeithio ar allu'r darparwyr i gystadlu?

Na.

3. A fydd y cynllun yn effeithio ar gymhelliant y darparwyr i gystadlu'n frwd?

Na.

- *Prawf o'r effaith amgylcheddol ehangach*

Mae'r prawf effaith hwn yn ymwneud â chynigion Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM i gau Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni.

Oherwydd y gallai'r cynnig hwn gael effaith posibl ar yr amgylchedd, defnyddiwyd rhestr wirio a gyhoeddwyd gan DEFRA (gweler <http://www.defra.gov.uk/corporate/about/how/policy-guidance/sd-impact/>) i asesu; ystyriwyd pob effaith sylweddol posibl (ac eithrio allyriadau carbon, sydd wedi cael ei ddadansoddi yn yr asesiad o effaith Nwyon Tŷ Gwydr).

4. A fydd y cynllun yn agored i'r effeithiau rhagweledig o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd?

Mae'r cynnig yn argymhell cau dau adeilad o faint canolig yn fras, ac mewn canolfannau sydd â phoblogaeth lai na'r lleoliad arfaethedig, sef Casnewydd.

Mae llysoedd GLITEM wedi'u lleoli dros ardal ddaearyddol wahanol iawn; nid yw'r llysoedd hyn wedi cael eu dewis o ganlyniad i fod yn agos i'r arfordir nac eu bod yn agored i lifogydd. Fodd bynnag, mae risg gynyddol o lifogydd yng Nghasnewydd, ond oherwydd ei fod yn un o brif drefi'r de, mae'n debygol y rhoddir mesurau lliniaru mewn lle i leihau'r risg.

Mae pob safle yn dod o dan Gynllun Ymaddasu i Newid Hinsawdd yr adran<sup>1</sup>, ac nid oes unrhyw un wedi'i enwi fel safle o risg sylweddol neu'n agored i effeithiau newid hinsawdd sy'n cynnwys tywydd eithafol, gwres/sychder ac amhariad ar drafnidiaeth. Mesurwyd hyn yn erbyn Rhagolygon Hinsawdd y DU 2009, gan ddefnyddio'r senario allyriadau canolig. Mae amryw o fesurau lliniaru mewn lle, gan gynnwys arolygon ansawdd i gynnwys gofynion addasu ac ailbriso safleoedd yn sgil effeithiau newid hinsawdd.

Felly, ar gyfer y cynnig hwn, nid oes cynnydd net disgwylidig o ran bregusrwydd i effeithiau newid hinsawdd a ragwelir.

5. A fydd y cynllun yn arwain at newid yn y costau ariannol, neu effeithiau amgylcheddol neu iechyd mewn perthynas â rheoli gwastraff?

Mae cynnyrch gwastraff yn gysylltiedig â nifer y staff yn y lle cyntaf (ni fydd hyn yn newid), yn hytrach na maint yr ystâd; felly ni fydd unrhyw effaith sylweddol. Bydd cynnydd untro o ran cynnyrch gwastraff pan fydd y staff yn gadael yr adeiladau, ond bydd y gwastraff hwn yn cael ei waredu mewn modd cynaliadwy yn unol â chanllawiau WRAP. Mae'n debygol y bydd y

---

<sup>1</sup> Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010. Mae angen ei adolygu yn awr.

cynnydd untro hwn yn cael ei wrthbwysu â chynnyrch gwastraff is mewn ystad lai. Bydd hyn yn arwain at effaith net gadarnhaol (lleihad) mewn costau o ran gwasanaethau amgylcheddol a rheoli gwastraff.

6. A fydd y cynllun yn cael effaith sylweddol ar ansawdd yr aer?

Mae'r sgrinio cychwynnol yn dynodi efallai y bydd cynnydd mewn amseroedd teithio cyfartalog i'r llys ar gyfer rhai defnyddwyr o ganlyniad i'r rhaglen. Fodd bynnag, bydd amseroedd teithio eraill yn lleihau, ac ni fydd unrhyw gynnydd yn cael effaith sylweddol ar ansawdd yr aer.

7. A fydd y cynllun yn cynnwys unrhyw newid i ymddangosiad y dirwedd neu'r treflun?

Ddim fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Bydd unrhyw gamau pellach gan ddatblygwyr yn amodol ar ganiatâd cynllunio lleol.

8. A fydd y cynllun yn newid 1) graddfa llygredd dŵr 2) lefelau tywiad dŵr neu 3) perygl o lifogydd?

Na.

9. A fydd y cynllun yn newid 1) cyfanswm neu amrywiaeth y rhywogaethau byw 2) cyfanswm, amrywiaeth neu ansawdd yr ecosystemau?

Na.

10. A fydd y cynllun yn effeithio ar y nifer o bobl sy'n agored i sŵn neu'r lefelau y maent yn agored iddynt?

Na.

- *Prawf effaith nwyon tŷ gwydr*

11. A fydd cynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o ganlyniad i'r cynllun?

Na.

- *Prawf effaith ar iechyd.*

12. A fydd y cynllun yn cael effaith anffafriol ar iechyd?

Na.

- *Prawf effaith ar hawliau dynol*

13. A fydd y cynllun yn effeithio ar hawliau dynol?

Na.

- *Prawf effaith ar anghenion cefn gwlad*

Mae'r rhaglen hon yn rhan o raglen cau llysoedd a thriwlynlysoedd yng Nghymru a Lloegr fel rhan o gynllun ad-drefnu ystad y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Gallai hyn effeithio ar gymunedau gwledig.

Mae Defra yn diffinio ardaloedd gyda phoblogaeth o dros 10,000 yn y Cyfrifiad fel ardaloedd *dinesig*, a diffinnir y gweddill fel un o dri math gwledig: Trefi a'r cyrion, pentref neu bentrefan a *gwasgaredig*. Mae'r rhan fwyaf o'r llysoedd/triwlynlysoedd yn y rhaglen mewn trefi a ddiffinnir yn 'Ddinesig' ac felly ni fydd prawfesur gwledig yn berthnasol.

Ar gyfer y rhai sy'n dod o fewn y diffiniad gwledig yn ôl y rhestr wirio a gyhoeddwyd gan DEFRA (gweler isod; <http://www.defra.gov.uk/corporate/about/how/policy-guidance/rural-proofing/>) mae pob effaith posibl wedi cael ei ystyried.

14. A fydd y cynllun yn effeithio ar ddarpariaeth ac argaeledd gwasanaethau?

Mae'r polisi yn argymhell canoli gwasanaethau. Bydd hyn yn effeithio ar argaeledd lleol, er na ddylid bod unrhyw leihad oherwydd bydd y rhaglen cau yn trosglwyddo swyddogaethau llysoedd a thriwlynlysoedd i safleoedd gerllaw gyda swyddogaethau tebyg.

15. A fydd y cynllun yn effeithio ar gostau darparu gwasanaethau?

Disgwylir o'r gost darparu gwasanaeth leihau oherwydd y bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cael budd o arbedion main drwy ddefnyddio llai o adnoddau yn fwy effeithlon a chanoli.

16. A fydd y cynllun yn effeithio ar hygyrchedd ac isadeiledd?

Mae'n debygol y bydd amseroedd teithio yn cynyddu, gyda'r cynnydd mwyaf yn debygol o fod yng Nghymru, ond ystyrir bod y cysylltiadau trafnidiaeth yn ddigonol, a disgwylir i'r amseroedd teithio barhau'n dderbyniol.

17. A fydd y cynllun yn effeithio ar gyfathrebu?

Nid yw'r polisi'n debygol o effeithio ar gyfathrebu, a bydd yr amryw o ddatrysiadau cyfathrebu presennol yn parhau i gael eu defnyddio.

18. A fydd y cynllun yn effeithio ar yr economi leol?

Mae'n bosibl y bydd peth effaith negyddol mewn trefi lle bydd llysoedd a thribiwnlysoedd yn cau, ond disgwylir i hyn fod yn fach iawn oherwydd y trosglwyddir gwasanaethau i ardaloedd gerllaw.

19. A fydd y cynllun yn effeithio ar allu pobl i gael mynediad at gyfiawnder?

Na.

- *Prawf effaith ar gwmnïau bychain*

20. A fydd y cynllun yn effeithio ar gwmnïau bychain yn yr ardal?

Gweler uchod am yr effaith posibl ar fusnesau lleol.

- *Prawf effaith ar ddatblygiad cynaliadwy*

## Cam 1

### 1. Safonau Amgylcheddol

1a. A yw eich cynnig polisi'n arwain at effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd (gweler Prawf Effaith Benodol ar yr Amgylchedd Ehangach)?

Nac ydy

Os 'ydy' yw'r ateb, nodwch yr effeithiau hyn yn gryno isod:

Bydd y polisi'n arwain at ostyngiad bach mewn allyriadau carbon o ystâd GLITEM. Amcangyfrifir y gallai allyriadau blynyddol GLITEM ostwng 104 tCO<sub>2</sub> ar ôl gwerthu dau safle, hynny yw gostyngiad o 0.1% yng nghyfanswm allyriadau GLITEM.

Nid yw'r effeithiau eraill ar yr amgylchedd yn sylweddol. Bydd y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu a'r dŵr sy'n cael ei ddefnyddio'n lleihau ond dim ond o ychydig (gan fod y ddau'n gysylltiedig i raddau helaeth â nifer y staff a defnyddwyr llys, yn hytrach na maint yr ystâd). Mae bron bob un o'r effeithiau amgylcheddol yn gadarnhaol.

1b. Os ydych wedi ateb 'ydy' yng nghwestiwn 1a., a yw'r effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd yn berthnasol i unrhyw rai o'r gofynion cyfreithiol a'r safonau rheoleiddio a nodwyd?

Amherthnasol

Os 'ydynt' yw'r ateb, nodwch y safonau perthnasol yn gryno isod:

Amherthnasol

Os ydych wedi ateb 'ydynt' yng nghwestiwn 1b, a ydych wedi:

1c. Hysbysu Adran y Llywodraeth sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am y trothwy a chadarnhau gyda nhw sut y byddwch yn cynnwys yr effeithiau'n briodol yn y dadansoddiad costau a buddion?

Amherthnasol

1d. Hysbysu gweinidogion os oes angen?

Amherthnasol

1e. Cytuno ar gamau i liniaru neu wneud iawn os yw hynny'n briodol?

Amherthnasol

## 2. Effeithiau ar wahanol genedlaethau

2a. A ydych wedi asesu dosbarthiad prif gostau a buddion ariannol ac anariannol eich cynnig dros gyfnod? Gallwch gynnwys yr asesiad hwn yn eich Sail Dystiolaeth neu ei roi mewn atodiad.

Do

Roedd y pecyn ar gyfer asesu effaith nwyon tŷ gwydr yn cynnwys dadansoddiad cost a budd ariannol ac anariannol.

2b. A ydych wedi canfod unrhyw effeithiau sylweddol a allai gael effaith anghymesur ar genedlaethau'r dyfodol? Os ydych, rhowch ddisgrifiad byr ohonynt.

Naddo

Os ydych wedi ateb 'do' yng nghwestiwn 2b., a ydych wedi:

2c. Hysbysu gweinidogion os oes angen? Os ydych, rhowch fanylion.

Ni chanfuwyd effaith sylweddol, ond mae'r gweinidogion yn ymwybodol o'r bwriad i gau llysoedd.

2d. Cytuno ar gamau i liniaru neu wneud iawn os yw hynny'n briodol? Rhowch fanylion.

Ni chanfuwyd effaith sylweddol. Bydd y prawf effaith datblygu cynaliadwy yn cael ei adolygu yn ystod y cyfnod ymgynghori.

## Cam 2

**3. Pwrpas yr ail gam yw dod â chanlyniadau'r asesiad effaith a chanlyniadau cam cyntaf y prawf datblygu cynaliadwy at ei gilydd. Lluniwyd y cwestiynau a ganlyn i adlewyrchu'r ansicrwydd yn y dadansoddiad cost a budd a'ch helpu i ystyried sut i symud ymlaen yn dilyn tystiolaeth bellach o gam cyntaf y prawf datblygu cynaliadwy.**

3a. Nodwch yn y blwch priodol a yw'r cydbwysedd rhwng costau a buddion ariannol yn un:

Cadarnhaol iawn	Gweddol gadarnhaol	Niwtral at ei gilydd /	Gweddol negyddol	Negyddol iawn
-----------------	--------------------	------------------------	------------------	---------------

		cytbwys		
		X		

3b. Nodwch yn y blwch priodol a yw'r cydbwysedd rhwng costau a buddion ariannol yn debygol o fod yn un:

Cadarnhaol iawn	Gweddol gadarnhaol	Niwtral at ei gilydd / cytbwys	Gweddol negyddol	Negyddol iawn
		X		

3c. Nodwch yn y blwch priodol a yw canlyniadau cwestiynau datblygu cynaliadwy 1-3, ar y cyfan, yn debygol o fod yn rhai:

Cadarnhaol iawn	Gweddol gadarnhaol	Niwtral at ei gilydd / cytbwys	Gweddol negyddol	Negyddol iawn
		X		

3d. Nodwch yn y blwch priodol a yw'r cydbwysedd rhwng y costau a'r buddion ariannol ac anariannol a'r materion cynaliadwy sydd i'w hystyried, ar y cyfan, yn cael ei ystyried yn un:

Cadarnhaol iawn	Gweddol gadarnhaol	Niwtral at ei gilydd / cytbwys	Gweddol negyddol	Negyddol iawn
		X		

3e. Esboniwch ganlyniad terfynol 3d, gan egluro, er enghraifft, sut rydych wedi cymharu costau a buddion ariannol ac anariannol a sut rydych wedi datrys unrhyw wrthdaro rhwng y canlyniadau cost a budd a'r canlyniadau datblygu cynaliadwy.

Yr unig effaith sylweddol o ran datblygu cynaliadwy yw'r lleihad mewn allyriadau carbon, sydd wedi cael ei gyfrifo yn nhermau costau ariannol ac anariannol fel rhan o'r Aseiad Effaith Nwyon Tŷ Gwyr. Bydd effaith lai, ond effaith gadarnhaol er hynny, yng nghyswllt defnyddio dŵr a chynhyrchu gwastraff. Er bod agweddau cadarnhaol, o ran datblygu cynaliadwy ac o safbwynt ariannol, o ystyried maint yr adeiladau a'r ffaith fod hyn yn arfer bod yn rhan o ymgyrch fwy cymerir erbyn hyn y bydd yr effaith yn un niwtral at ei gilydd.